# Papur Bwrdd

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

12 Gorffennaf 2018 Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2017/18 |
| **Cyfeirnod y papur:** | 22.18 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Ashleigh Dunn / Tim Jones |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **<u>Penderfynu</u> / Craffu / Datblygu / Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2017/18 yn unol â gofynion ein Safonau |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y <u>tymor hir</u>:**<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>**Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br>Y gallu i roi dewis iaith wrth ymwneud â'r cyhoedd, gan drin y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd yn ein gwaith<br><br>**Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>:**<br>Sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn holl feysydd ein gwaith<br>**<u>Atal</u> problemau rhag codi:**<br>Mae darparu gwasanaeth dwyieithog yn enghraifft o arfer da, gan alluogi i bobl fynegi eu barn yn well yn yr iaith maent yn fwy cyfforddus siarad ynddi |

**Mater**

1. Cymeradwyo'n Hadroddiad Blynyddol, y mae'n ddyletswydd arnom ei lunio a'i gyhoeddi dan ein polisi Safonau'r Gymraeg, a rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd ar y gwaith a wnaed dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf i wella'n gwasanaethau Cymraeg.

**Cefndir**

2. Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol i orfodi Safonau'r Gymraeg ar rai sefydliadau cyhoeddus, ac mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i gydymffurfio. Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer ein sefydliad ar 25 Ionawr 2017.

**Asesiad**

**Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2017/2018 (Atodiad 1)**

3. Mae dyletswydd arnom dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i lunio a chyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y cynnydd a wnaed gennym o fewn y flwyddyn wrth roi ein Polisi Iaith Gymraeg ar waith, a chyhoeddi'r adroddiad ddim hwyrach na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
4. Dan y Safonau Cadw Cofnodion, mae gofyn i ni gynnwys yn yr adroddiad yr holl gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gymraeg, sgiliau Cymraeg ein staff, nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigir gennym drwy gyfrwng y Gymraeg, nifer y staff a gafodd ein cefnogi gennym i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd fel Cymraeg yn hanfodol, Cymraeg yn ddymunol neu nad yw sgiliau Cymraeg eu hangen.
5. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y gwaith rydym wedi'i wneud i wella'n gwasanaethau iaith Gymraeg ar gyfer ein cwsmeriaid.

**Uchafbwyntiau Allweddol ar gyfer Adroddiad 2017/2018: -**

- Gwnaethom barhau i gynyddu ymwybyddiaeth ein staff o'n dyletswyddau ynghylch y Safonau. Tynnodd erthyglau a gyhoeddwyd ar y fewnrwyd a chylchlythyr misol y rheolwyr sylw at y dyletswyddau hynny a gofynnwyd i reolwyr drafod y rhain gyda'u timau.
- Mae'r holl staff newydd yn derbyn e-bost gan Dîm y Gymraeg yn esbonio'n polisi, ein gweithdrefnau a'n canllawiau i helpu'r holl staff i weithio'n ddwyieithog. Mae gwybodaeth am ein rhaglen hyfforddiant hefyd wedi'i chynnwys yn yr e-bost. Gwahoddir yr holl aelodau staff newydd i gwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'w helpu i ddeall hanes a diwylliant Cymru a gofynion y ddeddfwriaeth sydd ar waith.
- Mae gwaith wedi cael ei wneud i wella argaeledd ac amserlenni ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd yn Gymraeg. Gwnaeth cyflwyno systemau TGCh newydd yng ngwanwyn 2017 ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg gofrestru am rybuddion llifogydd a derbyn gwybodaeth fwy amserol a defnyddiol am lifogydd.
- Ar hyn o bryd, mae ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd am ddim ar gael i dros 136,000 o eiddo yng Nghymru. I dderbyn rhybuddion am lifogydd, roedd angen i'r rhai sydd mewn perygl gofrestru i dderbyn rhybuddion dros y ffôn, drwy negeseuon testun neu e-byst yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yn dilyn sawl blwyddyn o weithgareddau hyrwyddol, mae cwsmeriaid o 53,000 o eiddo wedi gwneud felly.
- I ehangu cyrhaeddiad ein rhybuddion, rydym wedi gweithio gyda darparwyr ffôn (BT, EE, O2, Three a Vodafone) i gofrestru eu cwsmeriaid i dderbyn ein rhybuddion llifogydd. Bellach, caiff ein rhybuddion eu hanfon at dros 114,000 o eiddo, gyda 5,000 mwy yn cael eu hychwanegu dros y misoedd nesaf. I ddechrau, mae’r cwsmeriaid ychwanegol hyn yn derbyn negeseuon 'croeso' yn dweud wrthynt eu

bod wedi'u cofrestru'n awtomatig i dderbyn rhybuddion llifogydd (er y gallant ddewis peidio â'u derbyn).

- Yn yr adran 'Lleoedd i ymweld â hwy' ar ein gwefan, datblygwyd map rhyngweithiol 'Ar grwydr' ac fe'i lansiwyd gyda phinnau neidio i ddangos lleoliad ein prif goetiroedd a'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol er mwyn ymweld â hwy. Gall ymwelwyr â'r wefan glicio ar y pin a fydd yn mynd â nhw'n uniongyrchol o'r map i dudalen we'r safle maent am ymweld â hi. Ar y dudalen hon, byddant yn dod o hyd i'r holl wybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael iddynt ar y safle yno. Mae'r map rhyngweithiol hwn wedi cael ei ddatblygu yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ddiweddar i osod meddalwedd Windows 10 ar gyfrifiaduron yr holl staff. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae pecyn iaith wedi cael ei dreialu a bydd gan staff ddewis o gael rhyngwyneb y feddalwedd hon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddant yn gallu poblogi eu dewis iaith eu hunain.
- Ymdriniwyd â 7.5% o alwadau a dderbyniwyd yn ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn Gymraeg.
- Cyfanswm nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan yn 2017/18 oedd 931,392. Cyfanswm y defnyddwyr Cymraeg oedd 9,313.
- Dengys ystadegau fod sgiliau Cymraeg ein staff sydd wedi cael eu cefnogi i ddysgu Cymraeg yn dilyn ein rhaglen hyfforddiant a lansiwyd yn 2014 yn datblygu. Yn 2014, gallai 10.5% o'n staff siarad Cymraeg ar Lefel 2; dengys ystadegau presennol fod 22.7% o'n staff yn gallu siarad Cymraeg ar yr un lefel.

**Casgliad**

6. Yn gyffredinol, dengys yr adroddiad ein bod mewn lle da ac ein bod yn parhau i adeiladu ar y gwaith blaenorol a wnaed wrth ddisgwyl y Safonau. Dyma'r flwyddyn gyntaf o'u rhoi ar waith ac mae gennym beth gwaith i'w wneud ynghylch cynnwys a chynyddu ymwybyddiaeth. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu i gefnogi hyn.
7. Ein nod yw lleihau nifer y cwynion a dderbyniwyd a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mewn perthynas â'r cwynion a dderbyniwyd eleni, rydym wedi bod yn rhagweithiol ac wedi rhoi mesurau ar waith i atal yr un pethau rhag digwydd eto. Lle y bo'n bosib, rydym wedi cysylltu'n uniongyrchol â'r achwynydd i ddatrys y mater a meithrin perthnasau da.
8. Mae bellach gennym offer diagnostig i brofi llwyddiant ein rhaglen hyfforddiant Cymraeg a'r effaith gadarnhaol gyffredinol mae'n ei chael ar gynyddu ein gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bobl Cymru. Ers lansio'r rhaglen yn 2014, mae nifer yr aelodau staff ar Lefel 2 wedi cynyddu 12%. Byddwn yn parhau i annog mwy o ddysgu ac yn hybu cyfleoedd i'n dysgwyr a'n siaradwyr Cymraeg ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith.
9. Mae'r rhaglen newid bresennol yn rhoi rhai heriau a chyfleoedd i ni. Mae ein Hymgynghorydd ar y Gymraeg wedi gweithio'n agos gyda thîm Cynllun y Sefydliad i lunio dogfennau arweiniol i reolwyr er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol dan y Safonau. Caiff ymarfer ei gynnal yn yr hydref i fapio'n lefelau presennol o allu Cymraeg ac i nodi gofyniad ieithyddol pob rôl. Bydd yr ymarfer hwn hefyd yn nodi p'un a oes unrhyw fylchau mewn gallu ieithyddol ac, os felly, ym mha dimau a chyfarwyddiaethau.
10. Mae yna berygl y byddwn yn colli rhai siaradwyr Cymraeg rhugl drwy'r rhaglen newid. Bydd y cynlluniau rydym yn eu rhoi ar waith ar gyfer eleni'n rhoi darlun diagnostig gwell i ni ddeall effaith lawn hyn a lle mae angen rhoi ymyriadau ar waith i sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar ein gallu Cymraeg. Efallai bydd mwy o gyfleoedd gennym hefyd yn y dyfodol wrth recriwtio, oherwydd bod mwy o bobl sydd eisoes yn rhugl yn y Gymraeg yn cyflwyno ceisiadau am swyddi.

**Argymhelliad**

11. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2017/2018, sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

**Risgiau Allweddol**

12. Bydd methu â llunio Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg yn torri'n dyletswydd gyfreithiol o fewn ein hysbysiad o gydymffurfio.
13. Gellir gweld y peryglon o ddiffyg cydymffurfiaeth ar dudalen 8 yr Adroddiad Blynyddol.

**Goblygiadau Ariannol**

14. Bydd y gwaith o roi'r Safonau ar waith yn parhau i gael ei gynnal o gyllidebau presennol; bydd cost ychwanegol wrth ddiweddaru MyNRW i gynnwys gofynion y Gymraeg, y bydd angen ei thrafod gyda'r cyflenwr.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

15. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar Safonau'r Gymraeg fel rhan o ddatblygiad y polisi.

**Mynegai o atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2017/2018